

BTEC Tystysgrif Estynedig Genedlaethol mewn Peirianeg Fecanyddol Lefel 3



Yn gwyno

Yn cael ei gydnabod fel rhan o'r Fframwaith Prentisiaeth, bydd y cwrs blwyddyn hwn yn rhoi i chi cymhwyster cysylltiedig â gwaith, arbenigol iawn mewn Peirianeg, a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer gwaith yn y sector hwnnw.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant peirianeg.

Cynnwys y cwrs

Bydd angen i chi gael dealltwriaeth dda o fathemateg a gwyddoniaeth a mwynhau datrys problemau cymhleth sy'n gysylltiedig â dylunio mecanyddol a gweithgynhyrchu, adeiladu a chanfod diffygion, yn ogystal ag ymrwymiad llawn i fynychu a gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs ei hun yn cynnwys prosiectau ac aseiniadau yn seiliedig ar sefyllfaoedd gwaith go iawn, gan ddefnyddio cymysgedd o sesiynau ymarferol yn y gweithdy/labordy, sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, arddangosiadau, ymweliadau â chwmnïau a siaradwyr gwadd o'r diwydiant. Ymhlith y pynciau y byddwch yn ymdrin â nhw mae:

Iechyd a diogelwch yn y gweithle peirianeg
Cyfathrebu ar gyfer technegwyr peirianeg
Mathemateg ar gyfer technegwyr peirianeg
Egwyddorion a chymwysiadau mecanyddol
Nodweddion deunyddiau peirianegol a'u defnydd
Technegau gorffen ac eilaidd peirianegol

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau (a fydd yn cael eu graddio ar lefel llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth), adroddiadau, profion byr, gwaith ymarferol a gwaith portffolio cyn ennill Diploma Atodol Lefel 3 mewn Peirianeg Fecanyddol (90 credyd), y gallech wedi hynny fynd ymlaen i Ddiploma Lefel 3 mewn Peirianeg Fecanyddol neu Weithgynhyrchu yn Coleg Gwent, Prentisiaeth neu gyflogaeth yn y sector peirianeg.

Gofynion Mynediad

Byddwch angen o leiaf 5 TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys C mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith a B mewn Mathemateg, ynghyd â thair gradd C arall (yn ddelfrydol mewn Gwyddoniaeth neu bynciau cysylltiedig), neu gymhwyster Lefel 2 priodol gyda phroffil Teilyngdod. Ystyrir dysgwyr hyn ar sail cymwysterau mynediad a/neu eich profiad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os ydych yn dilyn Prentisiaeth ffurfiol, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cwrs ychwanegol i gwblhau'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol. Byddwch angen eich offer ysgrifennu eich hunain, h.y. ffolderi, rhanwyr pwnc, pinnau ysgrifennu, pensiliau, cwmpawd, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.